Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog

Os ydych yn derbyn arian gan y Gronfa Loteri Fawr i gyflwyno prosiect yng Nghymru bydd angen i chi wneud hynny'n ddwyieithog, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr.

Mae cynnig gwasanaethau eich prosiect yn Gymraeg a Saesneg yn un o amodau a thelerau eich grant, ond mae hefyd yn gyfle gwych i chi sicrhau fod pawb yn eich cymuned yn gallu cael mynediad at eich prosiect.

Beth mae hyn yn ei olygu

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut y byddwch yn cyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog cyn cyflwyno eich cais am ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr, gan y bydd angen i chi gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig yng nghyllideb eich prosiect.

- Os bydd eich prosiect yn cynnwys deunyddiau ysgrifenedig megis taflenni, posteri, llyfrynnau neu wefannau, bydd angen cynhyrchu'r rhain yn Gymraeg a Saesneg (fel dogfennau dwyieithog tipio a throi pryd bynnag y bo'n bosib)
- Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod o staff neu ddod a gweithwyr sesiynol i mewn gyda'ch grant gan y Gronfa Loteri Fawr bydd angen i chi ystyried yn ofalus p'un a oes angen siaradwr Cymraeg arnoch i gyflawni'r dyletswyddau dan sylw
- Bydd angen i unrhyw hysbyseb ar gyfer swydd newydd neu weithwyr sesiynol gael ei gosod yn y cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg neu yn Gymraeg yn unig os yw'n swydd sy'n mynnu sgiliau Cymraeg
- Gofynnwn i chi ystyried natur ieithyddol y gymuned rydych yn gweithio ynddi yn ystod cyfnod y grant a chymryd camau gweithredu priodol yn unol â hynny.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Mae angen i chi ystyried costau gweithio'n ddwyieithog eich er mwyn eu cynnwys yng nghyllideb y prosiect. Gall y rhain gynnwys:

- costau cyfieithu deunyddiau cyhoeddusrwydd/ hyrwyddo
- costau cwmnïau cyfieithu gwefannau neu gwe-ddylunio dwyieithog
- costau cyfieithu hysbysebion swyddi
- costau hysbysebu swyddi yn Gymraeg a Saesneg yn y cyfryngau.

Pwy all helpu

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn Llaw, sy'n helpu mudiadau trydydd sector i weithio'n ddwyieithog. Gallwch gysylltu â nhw ar www.estynllaw.org
e-bost: ymhol@estynllaw.org
Ffôn: 0800 9177 969

Neu cysylltwch â ni ar Welsh.translations@biglotteryfund.org.uk os hoffech gymorth gyda dod o hyd i gyfieithydd yn eich ardal.